



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwnewch y mwyaf o'ch dyfodol byd-eang Eich dewis chi

Gyrfaedd mewn leithoedd a Diwylliant



GALL DYSGU IAITH WNEUD BYD O WAHANIAETH I'CH GYRFA

Mae'r galw am ieithoedd ym myd busnes yn cynyddu drwy'r amser.

Rhowch fantais fawr i chi'ch hun felly wrth gynllunio eich gyrfa. Dysgwch iaith arall a'r sgiliau cyfathrebu mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.



EICH 'DYFODOL BYD-EANG' CHI

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun pum mlynedd o'r enw 'Dyfodol Byd-eang' er mwyn darparu a hyrwyddo cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb mewn ieithoedd, felly does dim amser gwell wedi bod erioed i ddysgu iaith a sicrhau eich 'Dyfodol Byd-eang' chi.

EICH PASBORT I LWYDDIANT


Mae yna gymaint o swyddi mewn cymaint o ddiwydiannau sy'n galw am sgiliau iaith.

- | | |
|-----------------------------|-------------------------------------|
| Teithio a Thwristiaeth | Gwerthu ac Allforio |
| Addysgu | Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus |
| Y Gwasanaeth Sifil | Bancio a Chyfrifyddiaeth |
| Llyfrgellyddiaeth | Y Gwasanaeth Llysgenhadol |
| Gwyddoniaeth ac Ymchwil | Cyfraith Ryngwladol |
| Lletygarwch ac Arlwyyo | Gwaith cymorth dyngarol |
| Gwaith Patentu | Y Diwydiant Creadigol |
| Gwaith mewn meysydd awyr | |
| Y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth | |
| Newyddiaduraeth a Darlledu | |

Mae **94%** o gyfleoedd swyddi gydag ieithoedd ddim yn cynnwys cyfieithu neu addysgu. Tipyn o syndod ichi?

GYDA IAITH, FE EWCH CHI'N BELL

Ond pa ieithoedd sy'n cael eu hystyried bwysicaf ymhlith cyflogwyr y DU?



Mae gwirfoddoli, gweithio, astudio neu deithio dramor yn ffyrdd gwych o ymarfer eich sgiliau iaith. Neu holwch ynghylch rhaglenni cyfnewid tramor yn eich ysgol, eich coleg neu eich prifysgol.



Ymunwch â miliynau o wirfoddolwyr ledled y byd

- Gwirfoddoli byd-eang
- Gwaith gwirfoddoli tramor (VSO UK)
- Raleigh International



Ewch dramor i addysgu neu weithio – mae miloedd yn gwneud hynny bob blwyddyn

- Teaching English as a Foreign Language (TEFL)
- Athrawon iaith gyda'r British Council



Dilynwch y miloedd sy'n mynd fel au pair i wlad arall

- Y Gymdeithas Au Pair Ryngwladol



Astudiwch, gweithiwch, gwirfoddolwch, addysgwch a hyfforddwch yn Ewrop

- Erasmus+



Chwiliwch drwy filiwn o swyddi yn Ewrop

- Porthol Swyddi Ewrop

Sut i ddysgu iaith arall

Gallwch ddysgu iaith arall:

- Yn llawn amser neu'n rhan-amser
- Ar lefel TGAU neu Safon Uwch
- Yn yr ysgol neu'r coleg

Gallwch hefyd astudio'n ryngweithiol neu fynd i ddosbarthiadau nos.

Addysg uwch?

Ar lefel gradd mae yna amrywiaeth eang o gyrsiau iaith a chyrtsiau ieithyddol a diwyllianol ar gael. Gallwch astudio:

- Un iaith
- Mwy nag un iaith
- Iaith gyda phwnc arall, ee...
 - Hanes a Ffrangeg
 - Almaeneg a Gwleidyddiaeth
 - Eidaleg a Meddygaeth
 - Ffrangeg a pwnc STEM
 - Sbaeneg a'r Gyfraith

I enwi ond ychydig!

Addysgu ieithoedd

Gallwch wneud gradd i fod yn athro iaith neu i addysgu Saesneg fel iaith dramor.



WG30827
ISBN: 978-1-4734-8542-6

Oes gyda chi ddiddordeb? Eisiau gwybod mwy?

- gyrfacymru.com
- 0800 028 48 44
- Sgwrs Ar-lein
- Gyrfa Cymru
- post@gyrfacymru.com
- @gyrfacymru